Enw ______________________



DARLLENWCH
Genesis 22: 1-14



ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 1: 29

# Gwers 4 Teithiau Abraham – Prawf o Gariad

Trwy gydol ein bywyd, rydyn ni i gyd yn gorfod wynebu gwahanoi brofion.

## C Pa fath o brofion sydd yn y lluniau isod?









Prawf ______________ .  Prawf ______________ .  Prawf ______________ .

3

Mae'n sicr bod Abraham yn dad balch iawn wrth iddo weld ei fab Isaac yn tyfu. Roedd Duw wedi bod yn dda wrth Abraham a Sara. Roedd wedi cadw'i addewid ac wedi rhoi llawenydd mawr iddyn nhw yn eu henaint. Roedd Abraham yn caru Isaac yn fawr iawn, ond a oedd yn caru Duw gymaint? Gadewch i ni chwilio am yr ateb!

Penderfynodd Duw y byddai'n rhoi prawf ar gariad Abraham tuag ato. Roedd y prawf yn mynd i fod yn un caled iawn.

## C Llanwch y bylchau i gael gwybod beth oedd y prawf.

Gofynnodd Duw i Abraham fynd ag _ _ _ _ _

i wlad M _ _ _ _ _ a'i offrymu'm aberth

ar un o'r m_ _ _ _ _ _ _ yno.



3

Roedd Abraham wedi ufuddhau i Dduw lawer gwaith cyn hyn, ac er bod hwn yn ymddangos yn beth od iawn i'w wneud, byddai Abraham yn ufudd i Dduw y tro hwn eto, am ei fod yn ofni Duw.

Nid yw ofni Duw yn golygu bod arnon ni ofn Duw, ond mae'n golygu ei garu, ufuddhau iddo a'i barchu, am ei fod yn Dduw Hollalluog. Roedd Abraham yn siwr na fyddai Duw yn ei siomi.

## C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir.

1. Teithiodd Abraham ar gefn camel. .................
2. Aeth pedwar o bobl ar y daith. .................
3. Ar y trydydd diwrnod, cafodd y gweision eu gadael ar ôl. .................

3

Wrth i Abraham fynd yn ei flaen ar y daith, gwyddai y byddai popeth yn gweithio allan yn iawn a hynny mewn rhyw ffordd ryfeddol, hyd yn oed pe bai Duw yn gorfod atgyfodi Isaac! Roedd Abraham yn credu addewid Duw mai trwy Isaac y byddai holl genhedloedd y ddaear yn cael eu bendithio.

**C** **Pwy oedd yn cario beth? Tynnwch saethau i gysylltu'r pethau a'r bobl.**

cyllell coed tân







**Abraham** **Isaac**

3

**C** **Ysgrifennwch y cwestiwn a ofynnodd Isaac a'r ateb a roddodd Abraham wrth iddyn nhw ddringo'r mynydd.**

2

**C** **Llanwch y bylchau:**

Ar ôl cyrraedd, adeiladodd Abraham __ ___ __ __ a rhoi Isaac arni. Gwnaeth Isaac fel y dywedodd Abraham wrtho. Fel yr oedd Abraham ar fin defnyddio'r __ __ ___ __ ___, torrodd __ ___ __ __ ar ei draws. Roedd Abraham wedi profi, trwy fod yn ufudd, ei fod yn caru Duw fwy na neb arall. Cafodd __ __ __ ___ ei aberthu yn lle Isaac.

4

**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n disgrifio'r aberth fwyaf a wnaed erioed.**

2

Mae'n bwysig bod gennym ni'r un math o ffydd yn Nuw ag oedd gan Abraham. Fe wnaeth Duw aberthu ei unig Fab, i gymryd ein pechodau ni, ac yna cododd ef yn fyw eto. **"... bod y Meseia wedi marw dros ein pechodau ni, fel mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud. Yna ei fod wedi ei gladdu, a'i fod wedi ei godi yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn, fel mae'r ysgrifau'n dweud." I Corinthiaid 15: 3 & 4**

Ydych chi'n credu hyn? Pan fu Iesu farw ar y groes, roedd yn fodlon bod yn aberth droson ni. Doedd neb arall a allai fod wedi cymryd ei le. Duw oedd wedi'i ddarparu ar ein cyfer ni. Dylen ninnau ymddiried yn llwyr yn Nuw, fel y gwnaeth Abraham, a diolch iddo am ddarparu ei Fab er mwyn i ni gael maddeuant.

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120